Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Y Cytundeb Ymadael: Goblygiadau i Gymru

Tachwedd 2018

Y Cytundeb Ymadael

Ar 14 Tachwedd 2018, cytunodd y negodwyr ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar destun Cytundeb Ymadael - dogfen sy'n nodi telerau ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Yn yr amser byr sydd ar gael ers ei gyhoeddi, rydym wedi cynnal asesiad cychwynnol o'r goblygiadau i Gymru sy'n deillio o'r Cytundeb Ymadael, gyda'r bwriad o lywio'r pleidleisiau sydd ar y gweill ar y Cytundeb Ymadael yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU.

1. Y cefndir

Trafodaethau Erthygl 50

1. Ers sbarduno Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mawrth 2017, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn trafod telerau ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

2. O ran yr UE, mae'r Cyngor Ewropeaidd wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer y trafodaethau (gan ddarparu'r mandad trafod i bob pwrpas), tra mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnal y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU.

3. Bydd gan Senedd Ewrop rôl hanfodol ar ddiwedd y trafodaethau ac mae wedi chwarae rhan bwysig wrth fynegi ei safbwynt ar ystod o faterion yn ymwneud â'r broses ymadael.

4. O ran Llywodraeth y DU mae'r trafodaethau wedi cael eu harwain gan yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac, yn y pen draw, y Prif Weinidog.

5. Mae'r negodwyr bellach wedi cyrraedd pwynt lle mae ganddynt destun wedi cytuno arno fel fersiwn ddrafft o Gytundeb Ymadael.

6. Cafodd y testun drafft hwn ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU, drwy ei Chabinet.

7. Cytunodd y Cyngor Ewropeaidd ar y testun, ar lefel llywodraethol, gyda Llywodraeth y DU mewn uwch-gynhadleddig arbennig ar 25 Tachwedd 2018.

8. Erbyn hyn mae'r testun drafft yn destun cadarnhad gan Senedd y DU a Senedd Ewrop.

9. Er nad oes rôl ffurfiol i'r Cynulliad o ran cadarnhau'r Cytundeb Ymadael, mae Prif Weinidog Cymru wedi ymrwymo i gynnal pleidlais gynghorol yn y Cynulliad ar delerau'r Cytundeb Ymadael.

10. Disgwylir y bleidlais hon ar 4 Rhagfyr 2018, cyn 'pleidlais ystyrlon' gyntaf Senedd y DU ar y Cytundeb Ymadael ar 11 Rhagfyr 2018.

Gwaith y Pwyllgor

11. Rydym wedi bod yn ystyried y goblygiadau i Gymru o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ers ein sefydlu fel pwyllgor ym mis Gorffennaf 2016.

12. Roedd ein hadroddiad cyntaf yn crynhoi'r goblygiadau i Gymru o adael yr Undeb Ewropeaidd.[1] Yn dilyn hynny, rydym wedi cyhoeddi ystod o adroddiadau sy'n ystyried ymhellach y goblygiadau i Gymru mewn termau cyfreithiol, cyfansoddiadol, economaidd a pholisi.[2]

13. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym wedi monitro cynnydd trafodaethau Erthygl 50. Mae wedi gwneud hyn drwy gynnal sesiynau craffu rheolaidd â Phrif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (cynrychiolydd arweiniol Llywodraeth Cymru o ran y trafodaethau). [3]

14. Mae Gweinidogion y DU wedi ymgysylltu â ni, drwy sesiynau tystiolaeth lafar a gohebiaeth. Rydym wedi ymgysylltu'n bennaf â'r Is-ysgrifennydd Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE, Mr Robin Walker AS.[4]

15. Ymdrechwyd i ddeall safbwynt yr Undeb Ewropeaidd trwy gynnal deialog reolaidd â'i sefydliadau. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd gyda phrif negodwr y Comisiwn Ewropeaidd, Mr Michel Barnier, a Chydlynydd Brexit Senedd Ewrop, Mr Guy Verhofstadt ASE.[5]

16. Drwy gydol y trafodaethau, rydym wedi gwneud yr ymdrech i dynnu sylw at y materion sy'n bwysig i Gymru a sicrhau bod y DU a'r UE wedi deall goblygiadau Brexit ar ein gwlad.

[1] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Y Goblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017

[2] Gweler tudalennau gwe'r Pwyllgorau i gael rhagor o fanylion am ei waith

[3] Mae trawsgrifiadau o'r sesiynau hyn ar gael o wefan y Pwyllgorau a gellir gweld recordiadau fideo wedi'u harchifo ar Senedd.tv

[4] Daeth Mr Walker AS i gyfarfodydd ar 6 Tachwedd 2017, 30 Ebrill 2018, 11 Hydref 2018.

[5] Cyfarfu'r Pwyllgor â Mr Barnier ar 16 Hydref 2017 ac â Mr Verhofstadt ar 27 Mehefin 2017. Cynhaliwyd y ddau gyfarfod ym Mrwsel.

2. Y goblygiadau i Gymru

Gan adeiladu ar ein gwaith blaenorol, a gyda chefnogaeth arbenigedd allanol, rydym wedi llunio asesiad cychwynnol o'r goblygiadau i Gymru sy'n deillio o'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol Amlinellol cysylltiedig ar berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. Mae'r asesiad hwn yn mynd i'r afael â thri cham o'r cyfnod ôl-Brexit: y cyfnod pontio; y trefniant wrth gefn ynghylch tollau (pe bai'n cael ei weithredu); ac amlinelliad o'r berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol.

Dadansoddiad sectoraidd

17. Rydym wedi wynebu amserlen heriol ar gyfer ymateb i gyhoeddi'r Cytundeb Ymadael, ac mae'r cyfnod o drafod ein hymateb wedi bod yn arbennig o rymus.

18. Er mwyn hwyluso ymateb, rydym wedi canolbwyntio ein dadansoddiad ar saith maes:

- Yr economi a masnach gyda'r UE;
- Porthladdoedd a Thrafnidiaeth;
- Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd;
- Ynni a'r Amgylchedd;
- Gofal iechyd;
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; a
- Sefydliadau.

19. Atodiad A Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion y dadansoddiad hwn o dan bob un o'r penawdau hyn.

20. Mae'n bwysig nodi bod y dadansoddiad hwn yn adeiladu ar ein corff gwaith blaenorol, sydd wedi'i gyhoeddi.

Arbenigedd allanol

21. Ynghyd â'r dadansoddiad a ddarperir yn Atodiad A, comisiynwyd Dr Tobias Lock o Brifysgol Caeredin i ddarparu asesiad cychwynnol o'r Cytundeb Ymadael a'i oblygiadau posibl i Gymru.

22. Rydym wedi darparu dadansoddiad Dr Lock yn ei gyfanrwydd fel Atodiad B i'r adroddiad hwn.

3. Ein barn

Mae angen i Lywodraethau Cymru a'r DU ddarparu manylion am yr hyn y mae telerau Cytundeb Ymadael Brexit yn ei olygu i bobl Cymru.

Gwybodaeth bellach i gynorthwyo i lywio pleidlais a'r cyhoedd

23. Yn ein barn ni, mae diffyg gwybodaeth o hyd am effaith wleidyddol ac economaidd Brexit ar delerau'r Cytundeb Ymadael.

24. Credwn y dylai Llywodraeth y DU, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru i'r graddau y mae eu hasesiad yn ymwneud â Chymru, gyhoeddi asesiad effaith llawn o Brexit ar delerau'r Cytundeb Ymadael.

25. Dylai'r asesiad hwn gymharu effaith Brexit ar delerau'r Cytundeb Ymadael gydag effaith Brexit 'dim bargen' a'r sefyllfa bresennol hy parhau ag aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

26. Byddwn yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i awgrymu'r dull hwn, pe na bai'r wybodaeth hon ar gael adeg yr adroddiad.

27. Yn ein cyfarfod ar 26 Tachwedd 2018, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, yr Athro Mark Drakeford AC i gyhoeddi dadansoddiad o'r Cytundeb Ymadael a'i oblygiadau i Gymru. Dywedodd ei fod yn bwriadu cyhoeddi hyn cyn i'r Cynulliad drafod y Cytundeb Ymadael.

ARGYMHELLIAD

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai dadansoddiad Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad o'r goblygiadau gwleidyddol, economaidd a chyfreithiol i Gymru o Brexit ar delerau'r Cytundeb Ymadael. Wrth ddarparu'r dadansoddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymhariaeth o Brexit 'dim bargen', a pharhau ag aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Dylai'r asesiad hwn gael ei gyhoeddi cyn unrhyw ddadl yn y Cynulliad ar y Cytundeb Ymadael.

Pleidlais y Cynulliad

28. Bydd y Cynulliad yn trafod y Cytundeb Ymadael ac yn cynnal pleidlais gynghorol ar y Cytundeb Ymadael.

29. Fel Pwyllgor, rydym wedi llunio'r adroddiad hwn i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt benderfynu a ddylid cefnogi'r Cytundeb Ymadael ai peidio.

30. Er nad yw'n bleidlais orfodi, mae barn y Cynulliad yn arwyddocaol. Bydd yn cario pwysau yn y dadleuon a fydd yn digwydd yn Senedd y DU a Senedd Ewrop.

31. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, a'r dadansoddiad ynddo, yn helpu i lywio'r bleidlais bwysig hon yn y Cynulliad.

32. Mae risgiau sylweddol a chyfleoedd ynghlwm wrth y mathau posibl o Brexit sydd o'n blaenau. Mae'r posibilrwydd o ddim Brexit o gwbl hefyd wedi ail-ymddangos fel opsiwn posibl, ond annhebygol, yn dilyn sylwadau a wnaeth y Prif Weinidog.[6]

33. Byddwn yn parhau i asesu'r risgiau a'r cyfleoedd hyn er mwyn llywio'r drafodaeth barhaus a gwneud yr hyn y gallwn i sicrhau bod Cymru'n barod am ba un bynnag o'r senarios hyn sy'n digwydd.

[6] Datganiad Prif Weinidog y DU ar Brexit: 14 Rhagfyr 2018

Atodiad A: Ein dadansoddiad

Y Cytundeb Drafft ar y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd – i ba raddau y mae'n mynd i'r afael â materion a godwyd gan y Pwyllgor

Mae'r briff hwn yn nodi i ba raddau y mae'r Cytundeb Ymadael yn mynd i'r afael â'r prif faterion a godwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiadau blaenorol. Mae'n nodi'r materion a godwyd; yr hyn y mae'r Cytundeb Ymadael yn ei ddweud am y materion hynny; beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio; a beth fydd yn digwydd yn ystod y berthynas yn y dyfodol neu os bydd yr 'ateb wrth gefn' yn dod i rym.

Mae'r papur wedi'i rannu'n saith maes, fel a ganlyn:

- Yr economi a masnach â'r UE;
- Trafnidiaeth a phorthladdoedd;
- Amaethyddiaeth, bwyd a physgodfeydd;
- Ynni a'r amgylchedd;
- Gofal iechyd;
- Cydraddoldeb a hawliau dynol; a
- Trefniadau cyfansoddiadol

1. Yr economi a masnach â'r UE

1. 1. Materion a godwyd gan y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael drafft

Roedd adroddiad y pwyllgor, **Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd**, a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2017, yn nodi nifer o

faterion a oedd yn peri pryder i'r Pwyllgor mewn perthynas ag economi Cymru a masnach â'r UE:

Dangosodd y mwyafrif helaeth o'r dystiolaeth a ddaeth i law fod sicrhau mynediad dirwystr i'r Farchnad Sengl (h.y. dim tariffau na rhwystrau di-dariff) yn hollbwysig i economi Cymru.

Mae gweithgynhyrchu yn chwarae mwy o ran yn economi Cymru nag y mae mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a'r brif farchnad ar gyfer gweithgynhyrchwyr Cymru yw'r Undeb Ewropeaidd. Byddai gorfodi tariffau yn fygythiad sylweddol i'r sector hwn, yn enwedig i weithgynhyrchwyr sy'n gweithredu o fewn cadwyni gwerth byd-eang.

Cydnabu'r Pwyllgor fod canfyddiadau pobl ynghylch mewnfudo o'r UE yn ffactor yn y refferendwm ar adael yr UE. Bydd cyfyngu ar allu dinasyddion yr UE i weithio yn y DU ar ôl Brexit yn cael effaith negyddol ar lawer o wasanaethau cyhoeddus, ar rai busnesau ac ar brosiectau seilwaith yn y dyfodol yng Nghymru. Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i liniaru'r goblygiadau hyn wrth i'r DU ddatblygu ei pholisi mewnfudo yn y dyfodol.

1. 2. Sut mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymateb i'r materion hyn

Ymdrinnir â llawer o'r materion sy'n ymwneud â'r economi a masnach yn yr adrannau isod ar y cyfnod pontio, y berthynas yn y dyfodol, a'r 'ateb wrth gefn' a amlinellir yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymdrin â gosod nwyddau ar y farchnad (erthyglau 40 i 46 o'r cytundeb drafft) a gweithdrefnau tollau parhaus (erthyglau 47 i 50 o'r cytundeb drafft). Mae'r rhain yn nodi y bydd nwyddau a gaiff eu gosod ar y farchnad yn yr UE cyn diwedd y cyfnod pontio yn gallu parhau i gylchredeg yn rhydd rhwng y DU a'r UE, ond y bydd cyfrifoldeb ar fusnesau i brofi bod y nwyddau wedi eu gosod ar y farchnad cyn 31 Rhagfyr 2020. O ran gweithdrefnau tollau, bydd nwyddau sydd o dan symudiad tollau ar ddiwedd y cyfnod pontio yn dal i gael eu trin o dan gyfraith yr UE.

O ran gallu dinasyddion yr UE i fyw a gweithio yn y DU ar ôl Brexit, mae Rhan Dau o'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymdrin â hawliau dinasyddion. Mae erthyglau 13 i 23 o'r cytundeb drafft yn ymdrin â hawliau dinasyddion yr UE i fyw yn y DU, ac mae erthyglau 24 i 29 yn ymdrin â hawliau cyflogaeth a chymwysterau proffesiynol.

Mae'n nodi y bydd holl ddinasyddion yr UE sy'n byw yn gyfreithlon yn y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio yn gallu aros yn y DU. Os ydynt eisoes wedi byw yn y DU yn barhaus ac yn gyfreithlon am bum mlynedd erbyn 31 Rhagfyr 2020, bydd gan ddinasyddion yr UE yr hawl i fyw yn y DU yn barhaol. Bydd dinasyddion yr UE sydd wedi byw yn y DU am lai na phum mlynedd ar 31 Rhagfyr 2020 yn gallu aros nes iddynt fyw yn y DU am bum mlynedd, ac yna byddant yn ennill yr hawl i breswylio'n barhaol yn y DU. Bydd aelodau agos o'r teulu yn gallu ymuno â dinasyddion yr UE sydd â hawl i fyw yn y DU yn barhaol os oedd y berthynas yn bodoli ar 31 Rhagfyr 2020, a'i bod yn dal i fodoli pan fyddai'r aelod o'r teulu yn dymuno dod i'r DU. Mae plant sy'n cael eu geni i ddinasyddion yr UE sydd â'r hawl i breswylio'n barhaol yn y DU hefyd yn cael eu cynnwys yn y cytundeb drafft.

Bydd dinasyddion yr UE sy'n gweithio neu'n hunangyflogedig yn y DU yn cael yr un hawliau yn fras ag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i beidio â chael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail cenedligrwydd, a'r hawl i gael triniaeth gyfartal â gwladolion y DU mewn meysydd fel yr hawl i weithio (mewn cyflogaeth neu'n hunangyflogedig); yr hawl i help gan Ganolfannau Gwaith; amodau cyflogaeth a gwaith; yr hawl i fanteision cymdeithasol (fel budd-daliadau lles) a manteision treth; hawliau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth undeb llafur; mynediad at dai; a'r hawl i'w plant gael addysg ac i gael hyfforddiant a phrentisiaethau. O ran dinasyddion yr UE sydd â chymwysterau proffesiynol neu fasnachol sy'n dod o dan gyfraith yr UE ac sy'n byw neu'n gweithio yn y DU, bydd eu cymwysterau yn parhau i gael eu cydnabod os y cafwyd y gydnabyddiaeth, neu os gwnaed cais am y gydnabyddiaeth, cyn 31 Rhagfyr 2020. Mae hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth i nifer helaeth o gymwysterau academaidd a chyfnodau hyfforddi neu brofiad ar draws llawer o ddisgyblaethau, gan gynnwys meddygon, nyrsys, deintyddion, milfeddygon, athrawon, penseiri, gwerthwyr tai, seiri, a gweithwyr trin gwallt a harddwch. Mae hefyd yn benodol yn cwmpasu cyfreithwyr, archwilwyr a phobl sy'n gweithio yn masnachu a dosbarthu cynhyrchion gwenwynig.

1. 3. Beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio os cymeradwyir y Cytundeb Ymadael drafft

Yn ystod y cyfnod pontio tan 31 Rhagfyr 2020, fel y nodir yn Rhan Pedwar o'r Cytundeb Ymadael drafft, bydd busnesau'r DU a'r UE yn masnachu ar yr un telerau ag y maent yn ei wneud nawr. Mae Erthygl 127 o'r cytundeb drafft yn nodi y bydd y DU yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE yn ystod y cyfnod pontio, ac eithrio pan fo'r cytundeb yn nodi eithriadau. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw dariffau na rhwystrau eraill di-dariff i fasnachu rhwng y DU a'r UE yn ystod y cyfnod hwn, ac

y bydd y DU yn parhau yn y farchnad sengl a'r undeb tollau. Bydd y rhyddid i symud hefyd yn parhau yn ystod y cyfnod hwn.

1. 4. Beth mae'r datganiad gwleidyddol yn ei ddweud am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

Mae'r datganiad gwleidyddol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a'r UE ar 25 Tachwedd 2018, yn tynnu sylw at y ffaith y bydd Llywodraeth y DU a'r UE yn gweithio tuag at drefniadau cynhwysfawr i greu ardal masnach rydd a fydd yn cyfuno cydweithrediad dwfn o ran rheoleiddio a thollau, wedi'i ategu gan ddarpariaethau i sicrhau cystadleuaeth agored a theg. Bwriad hyn yw sicrhau na fydd tariffau, taliadau na chyfyngiadau meintiol (cwotâu cuddiedig neu gyfyngiadau eraill) ar draws yr holl sectorau nwyddau.

O ran gwasanaethau, mae'r datganiad gwleidyddol yn nodi y bydd y berthynas yn y dyfodol yn ceisio datblygu lefel o ryddfrydoli masnach mewn gwasanaethau ymhell y tu hwnt i ymrwymiadau aelodaeth Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a hynny'n sylweddol ar draws sectorau. Bydd rheolau gwladwriaeth y wladwriaeth gartref yn gymwys i fynediad i'r farchnad a thriniaeth genedlaethol (h.y. ni ragwelir cyd-gydnabyddiaeth), ond gyda gwarant o ddim gwahaniaethu. O ran cymwysterau proffesiynol, mae'r cytundeb gwleidyddol amlinellol yn dweud mai dim ond "trefniadau priodol" a ragwelir.

O ran gwasanaethau ariannol, bydd y DU a'r UE yn gweithio at gytuno bod eu safonau rheoliadol yn gyfwerth â'i gilydd erbyn mis Mehefin 2020. Fel y nodwyd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU, Y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, ni fydd gan y DU a'r UE y lefelau mynediad presennol i farchnadoedd ei gilydd.

At hynny, mae'r datganiad gwleidyddol yn nodi bod rhaid i gystadleuaeth fod yn agored ac yn deg. Mae'n nodi y byddai hyn yn golygu cael darpariaethau sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol, cystadleuaeth, safonau cymdeithasol a chyflogaeth, safonau amgylcheddol, newid hinsawdd a materion treth perthnasol. Byddai'r rhain yn arwain at ddarpariaethau sy'n effeithio ar bolisi'r DU, gan y bydd 27 aelod-wladwriaeth yr UE yn parhau i gymhwyso cyfraith marchnad fewnol yr UE.

1. 5. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r 'ateb wrth gefn' yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn dod i rym

Bydd yr 'ateb wrth gefn' sydd yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn sefydlu un diriogaeth dollau rhwng yr UE a'r DU nes bod cytundeb masnach ar

waith os nad oes cytundeb ar berthynas fasnachol yn y dyfodol erbyn 31 Rhagfyr 2020, neu os yw Llywodraeth y DU yn dewis peidio ag ymestyn y cyfnod pontio erbyn 1 Gorffennaf 2020. Nodir manylion am hyn yn Erthygl 6 y protocol. Byddai hyn yn golygu na fyddai tariffau, cwotâu na gwiriadau ar reolau tarddiad rhwng y DU a'r UE, ac eithrio ar gyfer pysgodfeydd a chynhyrchion dyframaethu.

Mae Atodiad 4 i'r protocol hefyd yn ymrwymo'r DU i nifer o fesurau rheoliadol ar gyfer sicrhau amodau cyfartal os yw'r 'ateb wrth gefn' yn cael ei sbarduno. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ar drethi, diogelu'r amgylchedd, safonau llafur a chymdeithasol, cymorth gwladwriaethol, a chystadleuaeth. Ar gyfer safonau amgylcheddol a safonau llafur/cymdeithasol, mae'n ofynnol i'r DU beidio â "chymryd cam yn ôl" o lefelau diogelu o dan safonau rhyngwladol a safonau'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio. Yn achos cymorth gwladwriaethol a chystadleuaeth, fodd bynnag, byddai cyfraith yr UE mewn difri yn parhau yn weithredol yn y DU yn ystod unrhyw 'ateb wrth gefn'.

2. Trafnidiaeth a phorthladdoedd

2. 1. Materion a godwyd gan y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael drafft

Mae adroddiad y Pwyllgor ar oblygiadau Brexit i borthladdoedd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017, yn codi nifer o faterion yn ymwneud â phorthladdoedd. Y prif faterion a amlygwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ym mis Awst 2017 oedd:

- Pryder y gallai ffin feddal rhwng Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth, a ffin forwrol galed rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon, fod o anfantais ddifrifol i borthladdoedd Cymru ac y gallai arwain at golli cystadleurwydd a allai arwain at draffig yn symud o borthladdoedd Cymru - yn bennaf Caergybi - i borthladdoedd yn Lloegr a'r Alban, trwy Ogledd Iwerddon.
- Gallai oedi o ran tollau yn y porthladdoedd gael effaith negyddol ar borthladdoedd Ro-Ro yng Nghymru, yn enwedig Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun, sydd wedi datblygu a thyfu ers cwblhau'r Farchnad Sengl ym 1993 ac sy'n seiliedig ar deithio dirwystr o un ochr o Fôr Iwerddon i'r llall.

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu na fyddai ateb technolegol addas i'r broblem o brosesu gwiriadau tollau yn barod ac mewn grym adeg ymadawiad disgwyliedig y DU â'r UE ym mis Mawrth 2019.

Mae ei adroddiad diweddar ynghylch parodrwydd porthladdoedd Cymru, a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd, yn ailadrodd y casgliadau hyn. Noda hefyd fod:

> Y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn tueddu i gefnogi cynigion Llywodraeth y DU i greu Trefniant Tollau wedi'i Hwyluso ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni y bydd angen amser ar y sector i baratoi ar gyfer newid i'r trefniant tollau arfaethedig newydd hwn. At hynny, rydym yn nodi pryderon y rheini sy'n masnachu â gweddill y byd ynghylch y cymhlethdod ychwanegol yn sgil gweithredu o dan ddwy gyfundrefn dollau ar wahân...
>
> Rydym yn pryderu ynghylch y goblygiadau posibl yn sgil Brexit "dim bargen" i ddyrannu trwyddedau cludiant lorïau yn y DU ac yn nodi'r pryderon a glywsom y gallai hyn arwain at oblygiadau difrifol ledled y DU o ran symud nwyddau...
>
> Rydym yn cytuno bod rhaid sicrhau bod y DU a'r UE yn cydnabod ardystiadau hedfan sifil ei gilydd ar ôl Brexit er mwyn sicrhau bod teithiau awyr yn parhau i weithredu'n ddi-dor yn y DU a'r UE fel ag y maent nawr, ac rydym yn nodi bod Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn cynnwys darpariaethau i hwyluso hyn.

2. 2. Sut mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymateb i'r materion hyn

Ymdrinnir â llawer o'r materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a phorthladdoedd yn adrannau 2.3 i 2.5 o'r papur briffio hwn - ar y cyfnod pontio, y berthynas yn y dyfodol, a'r 'ateb wrth gefn' a amlinellir yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, fel y nodir yn adran 1.2, mae'r Cytundeb Ymadael yn cwmpasu gosod nwyddau ar y farchnad (erthyglau 40 i 46 o'r cytundeb drafft) a gweithdrefnau tollau parhaus (erthyglau 47 i 50 o'r cytundeb drafft). At hynny, mae Atodiad 4 i'r cytundeb drafft yn nodi nifer o gronfeydd data tollau tramor a chartref yr UE y bydd y DU yn parhau i gael mynediad rhannol atynt o leiaf ar ôl gadael yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys cronfeydd data ar systemau rheoli mewnforio ac allforio a thariffau. Mae hyn yn eithriad i Erthygl 8 o'r Cytundeb Ymadael, sy'n nodi na fydd gan y DU fynediad at rwydweithiau, systemau gwybodaeth na chronfeydd data yr UE ar ôl diwedd y cyfnod pontio, oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn y cytundeb.

2. 3. Beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio os cymeradwyir y Cytundeb Ymadael drafft

Bydd y DU yn aros yn y farchnad sengl a'r undeb tollau trwy gydol y cyfnod pontio, **sy'n golygu y bydd y trefniadau tollau presennol yn parhau mewn grym tan 31 Rhagfyr 2020**.

Yn ystod y cyfnod pontio, **bydd y trefniadau presennol ar gyfer cludo nwyddau ar y ffyrdd yn parhau. Ar hyn o bryd**, mae'n rhaid i gludwyr y DU sy'n gwneud teithiau rhyngwladol gael trwydded gweithredwr rhyngwladol safonol ynghyd â Thrwydded Gymuned ar gyfer teithiau i'r UE, o'r UE neu drwy'r UE. Mae Trwydded Gymuned yn caniatáu mynediad llwyr i gludwyr y DU i deithiau rhyngwladol ar gyfer gweithrediadau yn yr UE, gan gynnwys masnach rhwng gwledydd yr UE a thramwyo ledled yr UE. Mae hefyd yn caniatáu trefniadau cabot cyfyngedig (pan fo cludwr tramor yn cludo nwyddau o fewn gwlad arall) o fewn yr UE.

Mae cynllun trwydded ehangach y Gynhadledd Ewropeaidd o Weinidogion Trafnidiaeth (ECMT) ar gael sy'n caniatáu i gludwyr y DU gario nwyddau i neu drwy 43 o wledydd (gan gynnwys holl wledydd yr UE ac eithrio Cyprus) gyda nifer gyfyngedig o drwyddedau ar gael i'r DU.

O ran hedfan, **bydd y DU yn parhau i fod yn rhan o farchnad hedfan sengl Ewrop**, sef Ardal Hedfan Gyffredin Ewrop, yn ystod y cyfnod pontio. Fodd bynnag, o dan Erthygl 128 o'r Cytundeb Ymadael drafft, **nid yw'n glir a fydd y DU yn gallu parhau i gymryd rhan yn Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop, ac os felly i ba raddau**. Effaith Erthygl 7 o'r Cytundeb Ymadael Drafft yw na fydd gan y DU hawl i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau a llywodraethu cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau'r UE ar ôl ymadael. Yn unol â hynny, bydd colli'r hawliau hyn i gymryd rhan yn gymwys yn ystod y cyfnod pontio. Felly, mae dogfen esbonio Llywodraeth y DU i'r Cytundeb Ymadael yn nodi mai fesul achos y bydd y DU yn cael cymryd rhan. Nodir hyn yn Erthygl 128 o'r Cytundeb Ymadael drafft, sy'n nodi bod achosion lle gellir gwahodd y DU i fynychu rhai cyfarfodydd o'r UE a rhai cyfarfodydd o gyrff, swyddfeydd ac asiantaethau'r UE, cyhyd â bod o leiaf un o ddwy amod yn cael ei bodloni:

- Pan fo'r drafodaeth yn ymwneud â "gweithredoedd" (h.y. penderfyniadau yr Undeb Ewropeaidd) sydd wedi'u cyfeirio at y DU neu at unigolion neu gwmnïau yno (e.e. penderfyniad bod cwmni o'r DU wedi torri rheolau'r UE); neu
- Pan fo presenoldeb y DU yn angenrheidiol ac er budd yr UE.

Fodd bynnag, ni fydd cymryd rhan yn y cyfarfodydd yn cynnwys hawl i bleidleisio.

2. 4. Beth mae'r datganiad gwleidyddol yn ei ddweud am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

Ymdrinnir â threfniadau tollau yn y datganiad gwleidyddol sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Bwriad hyn **yw gweithio at drefniadau cynhwysfawr a fydd yn creu ardal masnach rydd a fydd yn cyfuno cydweithrediad dwfn o ran rheoleiddio a thollau.** Mae hefyd yn anelu **at gyflawni 'trefniadau tollau uchelgeisiol' sy'n seiliedig ar y DU yn ffurfio un diriogaeth dollau gyda'r UE yn yr ateb wrth gefn** fel rhan o'r protocol ar Iwerddon - Gogledd Iwerddon yn y Cytundeb Ymadael drafft.

Er y bydd gan yr UE a'r DU ymreolaeth reoleiddiol, byddant yn rhoi darpariaethau ar waith i sicrhau bod trefniadau rheoleiddio yn dryloyw, yn effeithlon, yn osgoi rhwystrau diangen i fasnachu nwyddau, a'u bod mor gydnaws â phosibl. O ran cymhwyso gwiriadau a rheolaethau ar y ffin, mae'r cytundeb yn nodi **y bydd graddau ymrwymiadau'r DU ar gydweithredu ar dollau a rheoleiddio, gan gynnwys alinio rheolau, yn cael eu hystyried.** Mewn geiriau eraill, ymddengys mai'r agosaf y bydd y DU yn alinio ei rheolau a'i safonau â'r UE (a fyddai'n golygu llai o annibyniaeth reoleiddiol i'r DU), y lleiaf o wiriadau a rheolaethau fydd eu hangen. Mae **dogfen esboniadol Llywodraeth y DU i'r datganiad gwleidyddol** yn nodi y bydd y DU yn ystyried alinio ei hun â rheolau'r UE mewn meysydd perthnasol.

Bydd y datganiad gwleidyddol yn anelu at **gael mynediad tebyg i'r farchnad ar gyfer gweithredwyr cludo nwyddau a chludo teithwyr**, a fydd yn seiliedig ar y rhwymedigaethau rhyngwladol perthnasol presennol er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored.

Yn achos hedfan, mae'r datganiad gwleidyddol yn nodi y bydd y DU a'r UE yn ceisio cyflawni Cytundeb Trafnidiaeth Awyr cynhwysfawr, a fydd yn cwmpasu mynediad i'r farchnad a buddsoddi, diogelwch a diogeledd hedfan, rheoli traffig awyr a darpariaethau i sicrhau cystadleuaeth deg ac agored. Bydd y DU a'r UE yn ceisio gwneud trefniadau pellach i gydweithredu er mwyn ceisio sicrhau safonau uchel o ran diogelwch a diogeledd awyrennau, gan gynnwys cydweithrediad agos rhwng Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop ac Awdurdod Hedfan Sifil y DU.

2. 5. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r 'ateb wrth gefn' yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn dod i rym

O dan yr 'ateb wrth gefn' a amlinellir yn Erthygl 6 o'r protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon byddai un diriogaeth dollau rhwng yr UE a'r DU yn cael ei

sefydlu nes bod cytundeb masnach ar waith os nad oes cytundeb ar berthynas fasnachol yn y dyfodol erbyn 31 Rhagfyr 2020, neu os yw Llywodraeth y DU yn dewis peidio ag ymestyn y cyfnod pontio erbyn 1 Gorffennaf 2020.

O dan y diriogaeth dollau sengl, bydd Gogledd Iwerddon yn yr un diriogaeth dollau â Phrydain Fawr, ond bydd yn parhau i gael ei halinio â nifer o reolau'r UE ar fasnach er mwyn osgoi ffin galed rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cod Tollau yr UE;
- Deddfwriaeth TAW ac ecseis mewn perthynas â nwyddau;
- Deddfwriaeth ar safonau nwyddau;
- Rheolau glanweithiol ar gyfer rheolaethau milfeddygol;
- Rheolau ar gynhyrchu a marchnata amaethyddol; a
- Rheolau Cymorth Gwladwriaethol

Os daw'r 'ateb wrth gefn' i rym, bydd busnesau Gogledd Iwerddon yn gallu gosod cynhyrchion ar farchnad fewnol yr UE heb gyfyngiad er mwyn osgoi 'ffin galed' rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn golygu na fyddai unrhyw wiriadau na rheolaethau newydd ar nwyddau sy'n croesi'r ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Ni fydd gofyniad chwaith am wiriadau newydd ar nwyddau sy'n dod i Brydain Fawr o Ogledd Iwerddon. Fodd bynnag, bydd gwiriadau ar nwyddau sy'n dod i Ogledd Iwerddon o weddill y DU. O ran nwyddau amaethyddol, bydd y gwiriadau presennol mewn porthladdoedd a meysydd awyr yn parhau, ond yn cynyddu. O ran nwyddau diwydiannol, awdurdodau'r DU fydd yn cynnal gwiriadau bob tro, a gellir eu cynnal yn bennaf yn y farchnad neu ar eiddo masnachwyr.

3. Amaethyddiaeth, bwyd a physgodfeydd

3. 1. Materion a godwyd gan y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael drafft

Yn ei **adroddiad ym mis Ionawr 2017**, nododd y Pwyllgor fod **amaethyddiaeth** yn chwarae rhan fwy yn economi Cymru nag yng ngweddill y DU, a daeth i'r casgliad **fod Brexit yn peri risgiau sylweddol i'r fasnach mewn cynhyrchion amaethyddol**, yn enwedig os bydd yn rhaid i'r DU ddibynnu ar reolau'r WTO am gyfnod o amser.

Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod cynnyrch amaethyddol o bob rhan o'r DU yn gallu cael mynediad i'r farchnad sengl ar yr un telerau, a nododd nad yw ffermwyr Cymru am weld amaethyddiaeth yn cael ei aberthu ar draul amcanion ehangach y DU megis mynediad i farchnadoedd gwasanaethau.

Yn ei adroddiad ym mis Mawrth 2018, Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol, Rhan un: safbwynt o Gymru, nododd y Pwyllgor ei fod **yn cydnabod yr heriau sydd ynghlwm â masnachu mewn nwyddau amaethyddol os bydd rhwystrau di-dariff newydd ar ôl Brexit**. Ei farn oedd y byddai rhwystrau di-dariff newydd fel archwiliadau iechyd i blanhigion ac anifeiliaid yn fygythiad i allforio cynnyrch amaethyddol, pysgod a bwyd Cymru i'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei bod yn hanfodol i Gymru allu sicrhau mynediad ffafriol at y farchnad, heb rwystrau tariff na rhwystrau di-dariff ar ôl Brexit.

Yn benodol o ran pysgodfeydd, cydnabu'r Pwyllgor mai pysgota am bysgod cregyn y mae'r mwyafrif o fflyd Cymru, sy'n rhywogaethau nad oes cwotâu ynghlwm â hwy ac sydd, o ganlyniad, o dan reolaeth yr Aelod-wladwriaeth. Felly, nid yw polisïau'r UE, fel y dyraniad cwota o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, yn effeithio ar bysgodfeydd Cymru gymaint â'r DU gyfan. O ran masnach, **mae mwyafrif y pysgod cregyn sy'n cael eu glanio yng Nghymru yn cael eu hallforio i'r UE**, ac felly mae hwn yn faes arall lle gwelodd y Pwyllgor fod parhau i gael mynediad 'dirwystr' i'r Farchnad Sengl yn bwysig. **Cytunodd y Pwyllgor y gallai rhwystrau di-dariff gael effaith sylweddol ar bysgodfeydd**, gan y gallai unrhyw oedi i allforwyr pysgod cregyn byw gael effaith fawr ar fusnesau.

3. 2. Sut mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymateb i'r materion hyn

Ar fasnach amaethyddol, mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn nodi bod modd i nwyddau a osodir yn gyfreithlon ar y farchnad yn yr UE neu'r DU cyn diwedd y cyfnod pontio barhau i gael eu cylchredeg yn rhwydd yn y ddwy farchnad a rhwng y ddwy farchnad, nes eu bod yn cyrraedd eu defnyddwyr terfynol, heb unrhyw angen am addasu neu ail labelu cynnyrch. Mae hyn yn golygu bod nwyddau sy'n dal yn y gadwyn ddosbarthu ar ôl diwedd y cyfnod pontio yn gallu cyrraedd eu defnyddwyr terfynol yn yr UE neu'r DU heb orfod cydymffurfio ag unrhyw ofynion cynnyrch ychwanegol.

Yr eithriad i hyn yw Erthygl 41 o'r Cytundeb Ymadael drafft. Mae hyn yn nodi, yn ystod y cyfnod pontio, y bydd symud anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid o'r DU i'r UE nid yn unig yn ddarostyngedig i gyfraith "arferol" yr UE (yn gyffredin â "nwyddau" eraill), ond byddant hefyd yn destun gwiriadau ychwanegol o dan reolau'r UE ar gyfer trydydd gwledydd ar fewnforion a rheolaethau glanweithiol ar

y ffin. Dim ond i reolau cyfraith yr UE y bydd allforion o'r UE i'r DU yn ddarostyngedig iddynt, gan y bydd cyfraith yr UE yn gymwys yn gyffredinol i'r DU yn ystod y cyfnod hwn. Unwaith y daw'r cyfnod pontio i ben, gall masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid gael eu llywodraethu gan gytundeb masnach newydd rhwng y DU a'r UE, neu bydd y trefniadau wrth gefn a ddisgrifir isod yn effeithio arnynt. Ar wahân i'r ystyriaethau hynny, bydd mewnforion i'r UE yn cael eu rheoli gan gyfraith yr UE a bydd mewnforion i'r DU yn cael eu rheoli gan gyfraith y DU. Yn ôl y cytundeb, mae hyn yn angenrheidiol o ystyried y risgiau glanweithiol uchel sy'n gysylltiedig â chynhyrchion o'r fath, a'r angen am reolaethau milfeddygol effeithiol pan fydd y cynhyrchion hyn yn mynd i farchnad yr UE neu farchnad y DU.

O ran pysgodfeydd, mae Erthygl 6 o'r protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn nodi y bydd angen cytundeb ar wahân ar fynediad at ddyfroedd a chyfleoedd pysgota. Mae'r ddogfen yn nodi, yn unol ag Erthygl 184 o'r Cytundeb Ymadael, y bydd yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig yn gwneud eu hymdrechion gorau i ddod i gytundeb a'i gadarnhau cyn 1 Gorffennaf 2020.

Mae Erthygl 54 o'r cytundeb drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dynodiadau daearyddol ar fwydydd fel cig oen Cymreig. Bydd y bwydydd hyn yn cael yr amddiffyniad cyfatebol yn awtomatig yn y DU ac yn cadw'r amddiffyniad presennol yn yr UE. Bydd hawliau rhywogaethau planhigion yn cael yr un amddiffyniad.

3. 3. Beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio os cymeradwyir y Cytundeb Ymadael drafft

Fel y nodwyd yn yr adran ar fasnach uchod, yn ystod y cyfnod hwn, **bydd y rheolau cyfredol yn parhau i fod yn gymwys fel pe bai'r DU yn Aelod-wladwriaeth**, a bydd y DU yn parhau i fod yn rhan o undeb tollau a marchnad sengl yr UE. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd yn rhaid i'r DU gydymffurfio â pholisi masnach allanol yr UE ac felly ni fydd yn gallu ymgymryd â chytundebau masnach â gwledydd eraill, er y bydd yn gallu trafod eu telerau. Os bydd y cyfnod pontio yn cael ei ymestyn, byddai'r DU yn peidio â chymryd rhan yng nghyllideb yr UE fel pe bai'n Aelod-wladwriaeth ar ddiwedd 2020, **ac ni fyddai'r DU yn rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn ystod yr estyniad**. Byddai'r DU yn rhydd i gyflwyno **polisïau amaethyddol newydd,** os yw'r taliadau'n parhau o fewn terfynau penodol (a amlinellir yn Erthygl 132 o'r Cytundeb Ymadael drafft).

O ran pysgodfeydd, mae Erthygl 130 o'r Cytundeb Ymadael drafft yn nodi y **bydd y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn parhau i fod yn berthnasol i'r DU trwy gydol y cyfnod pontio**, felly bydd y DU yn cael ei rhwymo i benderfyniadau ar gyfleoedd

pysgota tan ddiwedd y cyfnod pontio, ond ni fydd yn gallu pleidleisio ar y penderfyniadau hynny. Fodd bynnag, bydd yr UE yn ymgynghori â'r DU. Yn ystod blwyddyn olaf y cyfnod pontio, bydd y DU yn gallu negodi ei chyfleoedd pysgota ei hun ar gyfer y flwyddyn ganlynol. **Mae'r DU a'r UE yn bwriadu dod i gytundeb pysgodfeydd newydd mewn pryd i bennu cyfleoedd pysgota am y flwyddyn gyntaf ar ôl y cyfnod pontio**.

3. 4. Beth mae'r datganiad gwleidyddol yn ei ddweud am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

Fel y crybwyllir yn adran 1.4 uchod, bydd Rhan 2 o'r datganiad gwleidyddol, ar y bartneriaeth economaidd, yn bwysig i'r diwydiant amaethyddol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r bwriad i greu Ardal Masnach Rydd (FTA) newydd, **un ddidariff, heb daliadau na chyfyngiadau meintiol ar gyfer yr holl nwyddau**, gyda **chydweithrediad dwfn o ran rheoliadau a thollau er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg o fewn yr ardal**. Bydd rhai gwiriadau a rheolaethau tollau masnach ar y ffin, ond nid yw graddau'r gwiriadau hyn yn cael eu hamlinellu a byddant yn dibynnu ar faint o gydweithrediad rheoleiddiol a thollau fydd o ran alinio rheolau.

O ran **pysgota**, nod y cytundeb gwleidyddol yw **sicrhau cydweithrediad dwyochrog a rhyngwladol** rhwng y DU a'r UE er mwyn sicrhau pysgota ar lefelau cynaliadwy, hyrwyddo cadwraeth adnoddau, a meithrin amgylchedd morol glân, iach a chynhyrchiol, gan nodi y bydd y Deyrnas Unedig yn wladwriaeth arfordirol annibynnol a all gynnal ymreolaeth reoliadol a hithau ddim bellach yn rhan o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Fel y nodir uchod, mae'r **DU a'r UE yn bwriadu dod i gytundeb pysgodfeydd newydd a fydd yn ymdrin â mynediad at ddyfroedd a chwotâu mewn pryd i bennu cyfleoedd pysgota ar gyfer y flwyddyn gyntaf ar ôl y cyfnod pontio**.

3. 5. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r 'ateb wrth gefn' yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn dod i rym

Mewn sefyllfa o'r fath, byddai'r DU a'r UE yn ffurfio un diriogaeth dollau, gyda'r canlyniad na fyddai **tariffau, cwotâu na gwiriadau ar reolau tarddiad ar gyfer masnach amaeth-bwyd rhwng y DU a'r UE**. Ni fyddai'r DU chwaith yn gallu codi na lleihau tariffau ar nwyddau amaethyddol o wledydd y tu allan i'r UE. Byddai Gogledd Iwerddon (ond nid gweddill y DU) yn parhau i alinio â rheolau'r UE ar gynhyrchion amaethyddol a bwyd, ac â rheolau glanweithiol yr UE ar gyfer rheolaethau milfeddygol. **Byddai hyn yn golygu na fyddai gwiriadau newydd ar ffin Gogledd Iwerddon-Iwerddon.** Bydd Gogledd Iwerddon hefyd yn parhau i fod yn ddarostyngedig i reolau'r UE ar gynhyrchu a marchnata cynnyrch amaethyddol.

Fodd bynnag, byddai gwiriadau ychwanegol ar nwyddau sy'n dod i Ogledd Iwerddon o weddill y DU. O ran nwyddau amaethyddol, byddai gwiriadau presennol mewn porthladdoedd a meysydd awyr yn parhau, ond yn cynyddu. Mater polisi i'r DU fyddai cynnal unrhyw wiriadau ar nwyddau amaethyddol a fyddai'n dod i weddill y DU o Ogledd Iwerddon.

4. Ynni a'r amgylchedd

4. 1. Materion a godwyd gan y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael drafft

Yn ei adroddiad yn 2017, mynegodd y pwyllgor bryderon y gallai lefelau amddiffyn yr amgylchedd gael eu gwanhau ar ôl gadael yr UE ac y gallai mesurau i amddiffyn yr amgylchedd fynd yn dameidiog. Barn y Pwyllgor oedd y dylai cyllidebau carbon a osodwyd gan y DU fod o leiaf mor heriol ag ymrwymiadau'r UE i fynd i'r afael â newid hinsawdd a bod yn rhaid iddynt barhau i gael eu diwallu ar ôl i'r DU adael yr UE.

Gwnaethpwyd llawer o waith y Cynulliad yn y maes hwn gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2018, Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit, nododd y Pwyllgor hwnnw fod cryn bryder ar draws y sector amgylcheddol y gallai fod llai o bwyslais ar ôl Brexit ar y swyddogaethau llywodraethu amgylcheddol a arferir gan gyrff yr UE ar hyn o bryd, a fyddai'n peryglu creu bwlch o ran llywodraethu amgylcheddol.

4. 2. Sut mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymateb i'r materion hyn

Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn adrannau 4.3 i 4.5 o'r papur hwn, ar y cyfnod pontio, y berthynas yn y dyfodol, a'r protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon. O ran ynni, mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â'r DU **yn gadael y Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Euratom)**, gan gynnwys cytundeb y bydd y cyfrifoldeb pennaf am weddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol yn parhau gyda'r wladwriaeth lle cafodd ei gynhyrchu, yn unol â chonfensiynau rhyngwladol a deddfwriaeth Euratom.

4. 3. Beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio os cymeradwyir y Cytundeb Ymadael drafft

Yn ystod y cyfnod pontio, bydd cyfraith amgylcheddol yr UE yn parhau i fod yn gymwys yn llawn yn y DU, gan gynnwys y swyddogaethau llywodraethu a arferir ar hyn o bryd gan gyrff yr UE fel y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

4. 4. Beth mae'r cytundeb gwleidyddol amlinellol yn ei ddweud am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

O ran ynni, mae'r datganiad gwleidyddol yn datgan bod y DU a'r UE wedi cytuno i sefydlu dulliau i alluogi masnachu trydan a nwy mewn ffordd gost-effeithiol ac amserol. Mae'n nodi y dylent ystyried cydweithredu ar brisio carbon drwy **gysylltu system masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr cenedlaethol y DU â systemau masnachu allyriadau'r UE**. Yn ogystal, mae'n cynnwys datganiad y dylai'r berthynas yn y dyfodol gynnwys **elfen eang o gydweithredu niwclear rhwng y DU a Chymuned Ynni Atomig yr UE**, er mwn sicrhau'r safonau uchel presennol o ddiogelwch niwclear.

O ran yr amgylchedd, mae'r datganiad fel y'i diweddarwyd yn cynnwys meysydd allweddol ar gyfer cydweithredu amgylcheddol ym meysydd **newid hinsawdd, datblygu cynaliadwy a llygredd trawsffiniol**. Yn benodol ar newid hinsawdd, mae'n nodi y dylai'r berthynas yn y dyfodol gadarnhau'r ymrwymiadau y mae'r UE a'r DU wedi'u gwneud o ran **addewidion newid hinsawdd rhyngwladol** fel Cytundeb Paris. Fodd bynnag, er bod y DU a'r UE yn parhau i gydweithredu ar faterion amgylcheddol, dywed y datganiad y bydd eu hannibyniaeth i wneud penderfyniadau yn cael ei chadw.

4. 5. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r 'ateb wrth gefn' yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn dod i rym

Yn y senario hon, byddai'r DU gyfan yn dod yn ddarostyngedig i **nifer fawr o ymrwymiadau amgylcheddol penodol** a gynlluniwyd i gynorthwyo gweithrediad y diriogaeth dollau sengl y byddai'r ateb wrth gefn yn ei chyflwyno. Mae'r ymrwymiadau hyn yn aml yn adlewyrchu'r nodau a nodir yn y datganiad gwleidyddol amlinellol ar y fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol, ond bod mwy o bwyslais ar hyn yn y protocol, o gofio y bydd y protocol yn gyfreithiol rwymol os daw'r ateb wrth gefn i rym.

Yn gyntaf, mae'r protocol yn darparu na fydd y DU **yn gwanhau rheolau amgylcheddol yr UE**, fel y byddent yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod pontio, mewn nifer o feysydd gan gynnwys allyriadau diwydiannol, ansawdd aer a gwarchod bioamrywiaeth, **er mwyn sicrhau amodau cyfartal ar gyfer cystadleuaeth deg**. Mae Atodiad 4 i'r protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn cynnwys ymrwymiad i

beidio â chamu'n ôl, sef sicrhau nad yw lefel y diogelwch amgylcheddol a ddarperir gan y gyfraith, rheoliadau ac arferion yn cael ei gostwng islaw'r lefel a ddarperir gan y safonau cyffredin a fydd yn berthnasol o fewn yr UE ac y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae hyn mewn perthynas â rhestr o feysydd sy'n cwmpasu holl brif bynciau cyfraith amgylcheddol yr UE, gan gynnwys rheoli llygredd, cadwraeth natur, newid hinsawdd a chyfranogiad y cyhoedd. Mae Atodiad 4 hefyd **yn cynnwys ymrwymiad i barhau i barchu egwyddorion amgylcheddol**: yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, cywiro difrod amgylcheddol yn y tarddiad a'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Yn ogystal, mae Atodiad 5 yn cynnwys rhestr hir o ddeddfwriaeth benodol yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn parhau i fod yn berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan yr ateb wrth gefn, gan gynnwys deddfwriaeth ar yr amgylchedd ac effeithlonrwydd ynni.

Mae'r protocol hefyd yn galluogi'r Cyd-bwyllgor – a fydd yn delio â chysylltiadau rhwng yr UE a'r DU yn ystod y cyfnod pontio – i osod isafswm o ymrwymiadau a fydd yn berthnasol i'r DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio o ran **lleihau allyriadau cenedlaethol rhai llygryddion atmosfferig**, yr uchafswm o sylffwr mewn tanwyddau morol, ac o ran y technegau gorau sydd ar gael ar gyfer allyriadau diwydiannol a lefelau'r allyriadau. Mae'r DU hefyd yn ymrwymo i gyflwyno system prisio carbon a fydd **o leiaf â'r un effeithiolrwydd a chwmpas** â System Masnachu Allyriadau'r UE os bydd yr ateb wrth gefn yn dod i rym.

O ran newid hinsawdd, dywed y protocol: "The Union and the United Kingdom shall take the necessary measures to meet their respective commitments to international agreements to address climate change, including those which implement the United Nations Framework Conventions on Climate Change, such as the Paris Agreement of 2015".

Mae'r DU hefyd yn cytuno i weithredu system dryloyw ar gyfer monitro a gorfodi sy'n gysylltiedig â diogelu'r amgylchedd gan gorff annibynnol a chanddo adnoddau digonol. Bydd gan y corff hwn bwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun i achosion honedig o dorri ymrwymiadau amddiffyn yr amgylchedd gan gyrff cyhoeddus ac awdurdodau yn y DU, a bydd yn gallu dod â chamau cyfreithiol gerbron llys neu dribiwnlys cymwys yn y DU.

5. Gofal iechyd

5. 1. Materion a godwyd gan y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael drafft

Nododd y Pwyllgor yn ei **adroddiad ym mis Ionawr 2017 nifer o faterion allweddol mewn perthynas â gofal iechyd a Brexit:**

- Mae pryderon ynghylch yr effaith ar gynllunio'r gweithlu os cyflwynir cyfyngiadau ar y rhyddid i symud
- Mae dyfodol trefniadau gofal iechyd cyfatebol yn aneglur a bydd angen mynd i'r afael â hwy mewn trafodaethau.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd asiantaethau'r UE fel yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd

Mewn **ymchwiliad dilynol** gan y Pwyllgor i barodrwydd y sector gofal iechyd am Brexit, codwyd y mater o gyflenwad ac argaeledd meddyginiaethau.

5. 2. Sut mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymateb i'r materion hyn

O ran gallu dinasyddion yr UE i weithio yn y DU ar ôl Brexit, fel y nodir yn adran 1.2, mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn nodi y bydd pob dinesydd yr UE sy'n byw yn gyfreithlon yn y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio yn gallu aros yn y DU. Yn ogystal, bydd dinasyddion yr UE sy'n gweithio neu'n hunangyflogedig yn y DU yn cael yr un hawliau yn fras ag sydd ganddynt ar hyn o bryd.

O ran parhau i gydnabod cymwysterau meddygol, mae Erthygl 27 o'r Cytundeb Ymadael drafft yn datgan y bydd dinasyddion yr UE sydd â chymwysterau proffesiynol o dan gyfraith yr UE sy'n byw neu'n gweithio yn y DU yn parhau i gael cydnabyddiaeth o'u cymwysterau os cawsant y cymhwyster neu os gwnaethant gais amdano cyn diwedd y cyfnod pontio. Mae'r proffesiynau sy'n dod o dan gyfraith yr UE (Cyfarwyddeb 2005/36/EC) yn cynnwys nyrsys, bydwragedd, meddygon (ymarferwyr cyffredinol ac arbenigwyr), ymarferwyr deintyddol a fferyllwyr.

Mae'r Cytundeb Ymadael drafft hefyd yn darparu y bydd Rheoliadau'r UE ar gydlynu nawdd cymdeithasol yn parhau i fod yn gymwys i ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a dinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae hyn yn golygu y bydd dinasyddion sydd wedi symud rhwng y DU a'r UE cyn diwedd y cyfnod pontio yn parhau i gael mynediad at ofal iechyd. Yn ogystal, mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn darparu, pan fo'r DU neu Aelod-wladwriaeth yn gyfrifol am ofal iechyd y dinasyddion hyn, y bydd ganddynt hawl i ofal iechyd cyfatebol gan eu gwlad gymwys.

At hynny, o ran gofal iechyd cyfatebol, bydd hawliau gwladolion y DU nad ydynt yn byw yn yr UE ar ddiwedd y cyfnod pontio ond sydd wedi talu cyfraniadau nawdd cymdeithasol mewn Aelod-wladwriaeth yn y gorffennol yn cael eu diogelu. Bydd y Cytundeb Ymadael drafft hefyd yn diogelu hawliau unigolion sydd mewn sefyllfa drawsffiniol ar ddiwedd y cyfnod pontio, ac sydd â hawl i Gerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd y DU (EHIC), fel y byddant yn dal i allu elwa o'r cynllun hwnnw cyhyd â'u bod yn y sefyllfa drawsffiniol honno. Mae hyn yn berthnasol i wladolion y DU sy'n astudio yn yr UE neu sy'n ymweld â'r UE.

Yn olaf, bydd y Cytundeb Ymadael drafft yn amddiffyn hawliau pobl sy'n ymweld â'r DU neu'r UE am driniaeth feddygol a gynlluniwyd, os y gofynnwyd am awdurdodiad cyn diwedd y cyfnod pontio, fel y gallent ddechrau neu gwblhau eu triniaeth.

O ran parhau i gymryd rhan mewn cyrff ac asiantaethau'r UE, dywed y Cytundeb Ymadael drafft mai fesul achos y bydd hyn yn digwydd.

O ran parhad argaeledd meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, mae Erthygl 41 o'r Cytundeb Ymadael drafft yn datgan y bydd nwyddau a roddir ar farchnad yr UE cyn diwedd y cyfnod pontio yn parhau i allu cylchredeg yn rhydd rhwng y DU a'r UE, gyda'r pwyslais ar fusnesau i brofi bod y nwyddau wedi eu rhoi ar y farchnad cyn diwedd y cyfnod pontio. Mae hyn yn golygu y bydd meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol a osodir ar y farchnad cyn 31 Rhagfyr 2020 yn parhau i gylchredeg yn rhydd rhwng y DU a'r UE ac na fydd angen addasiadau cynnyrch nac ail-labelu, ac y bydd unrhyw weithgarwch cydymffurfio a wnaed eisoes ar gyfer y nwyddau hyn, fel asesiadau cydymffurfio, yn parhau i gael ei gydnabod yn y DU a'r UE. Fodd bynnag, mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU drosglwyddo ffeiliau neu ddogfennau sy'n ymwneud â rhai asesiadau cynnyrch parhaus i'r UE, ac i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn berthnasol i asesiadau o feddyginiaethau a chemegau sy'n cael eu cynnal gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

O ran amddiffyn patentau ar gyfer meddyginiaethau, mae erthygl 54 o'r Cytundeb Ymadael drafft yn gwarantu parhad y broses wrth wneud cais am estyniad patent ac yn darparu, pan fo perchnogion meddyginiaethau neu batent agrocemegol wedi gwneud cais i awdurdodau'r DU am gyfnod o amddiffyniad ychwanegol cyn diwedd y cyfnod pontio, y bydd y cais hwnnw yn cael ei ystyried yn unol â'r weithdrefn bresennol ac y bydd lefel yr amddiffyniad a ddarperir yr un fath ag a ragnodir o dan gyfraith yr UE.

5. 3. Beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio os cymeradwyir y Cytundeb Ymadael drafft

Fel y nodir yn adran 1.3, bydd y rhyddid i symud yn parhau trwy gydol y cyfnod pontio. Mae hyn yn golygu y bydd dinasyddion yr UE yn parhau i allu dod i'r DU i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac i fwynhau'r un hawliau ag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Yn yr un modd, bydd cydnabyddiaeth o gymwysterau meddygol rhwng y DU a'r UE yn parhau.

Fel y nodir yn adran 1.3, mae hyn yn golygu na fydd unrhyw dariffau na rhwystrau eraill di-dariff i fasnachu rhwng y DU a'r UE yn ystod y cyfnod pontio, ac y bydd y DU yn parhau i fod yn y farchnad sengl a'r undeb tollau. Mae hyn yn golygu y bydd meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn parhau i gylchredeg yn rhydd rhwng y DU a'r UE yn ystod y cyfnod pontio.

Bydd hawliau dinasyddion i ofal iechyd, gan gynnwys gofal iechyd cyfatebol a thriniaeth feddygol wedi'i chynllunio, yn aros yr un fath yn ystod y cyfnod pontio.

Bydd cyfranogiad y DU yn sefydliadau'r UE yn ystod y cyfnod pontio yn adlewyrchu'r ffaith nad yw bellach yn Aelod-wladwriaeth. Fodd bynnag, dywed y Cytundeb Ymadael drafft y bydd cyfranogiad y DU yng nghyrff ac asiantaethau'r UE yn digwydd fesul achos a bod y DU a'r UE wedi cytuno y bydd cynrychiolwyr neu arbenigwyr o'r DU yn gallu parhau i fynychu rhai cyfarfodydd yr UE os gwahoddir hwy, er na fyddant yn gallu pleidleisio.

5. 4. Beth mae'r datganiad gwleidyddol yn ei ddweud am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

O ran cydnabod cymwysterau proffesiynol, dywed y datganiad gwleidyddol mai dim ond "trefniadau priodol" a ragwelir.

Fel y nodir yn adran 1.4 o'r papur briffio hwn, mae'r **datganiad gwleidyddol yn nodi y bydd Llywodraeth y DU a'r UE yn gweithio at lunio trefniadau cynhwysfawr sy'n creu ardal fasnach rydd a fydd yn cyfuno cydweithrediad dwfn o ran rheoleiddio a thollau, wedi'i ategu gan ddarpariaethau i sicrhau amodau cyfartal ar gyfer cystadleuaeth agored a theg.** Bydd y trefniadau hyn yn berthnasol i feddyginiaethau a dyfeisiau meddygol.

O ran cydweithredu yn y dyfodol y maes iechyd, dywed y datganiad gwleidyddol y dylai'r DU a'r UE gydweithredu yn yr un modd ag y mae'r UE yn gweithredu ei threfniadau presennol gyda thrydydd gwledydd. Byddai hyn yn golygu cydweithredu mewn fforymau rhyngwladol ar atal, canfod, paratoi ac ymateb i fygythiadau sefydlog i ddiogelwch iechyd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Bydd y DU a'r UE hefyd yn trafod y posibilrwydd o gydweithredu rhwng awdurdodau'r DU a'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd.

5. 5. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r 'ateb wrth gefn' yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn dod i rym

Fel y nodir yn adran 1.5, bydd yr 'ateb wrth gefn' yn sefydlu un diriogaeth dollau rhwng yr UE a'r DU. Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw dariffau, cwotâu na gwiriadau ar reolau tarddiad ar feddyginiaethau a dyfeisiadau meddygol sy'n teithio rhwng y DU a'r UE.

O ran y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, byddai'n ofynnol i'r DU beidio â "chamu'n ôl" o lefelau diogelu sy'n ymwneud â safonau llafur/cymdeithasol o dan safonau rhyngwladol a safonau'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio.

O ran gofal iechyd cyfatebol, mae Erthygl 5 o'r protocol yn gwarantu y gall y DU barhau i wneud trefniadau gydag Iwerddon mewn perthynas â'r Ardal Deithio Gyffredin. Mae hyn yn golygu y bydd y DU ac Iwerddon yn gallu parhau i warantu hawliau cyfatebol dinasyddion Prydain ac Iwerddon i gael mynediad at wasanaethau iechyd yn y wladwriaeth arall.

Mae Erthygl 15 o'r protocol yn nodi y gellid cytuno i roi mynediad llawn neu rannol i'r DU i rwydweithiau, systemau gwybodaeth neu gronfeydd data yr UE, os ystyrir bod mynediad o'r fath yn 'gwbl angenrheidiol' i alluogi'r DU i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y protocol.

6. Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

6. 1. Materion a godwyd gan y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael drafft

Yn ei adroddiad Y Cytundeb Ymadael: Goblygiadau i Gymru amlygodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad fod yn effro i unrhyw wanhau yn y safonau ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

Yn ddiweddar cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, ble mae'n codi pryderon pellach sy'n ymwneud â'r Cytundeb Ymadael drafft:

- **Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE**: sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Hawliau'r Siarter yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru.
- **Dim camu'n ôl o rwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol presennol**: p'un a fyddai hawliau a rhwymedigaethau presennol yn cael eu herydu neu eu tynnu o ganlyniad i Brexit.

6. 2. Sut mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymateb i'r materion hyn

Ymdrinnir â llawer o'r materion a ddisgrifir yn adran 6.1 ar y cyfnod pontio, y berthynas yn y dyfodol, a'r 'ateb wrth gefn' a amlinellir yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Mae'r brif agwedd o ran cydraddoldeb a hawliau dynol sy'n ymestyn y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod pontio yn ymwneud â Gogledd Iwerddon.

Mae erthygl 4 o'r protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn nodi **bod y DU yn ymrwymo i sicrhau na fydd gwanhau ar yr hawliau a gaiff eu hamddiffyn yn y bennod ar Hawliau, Diogelu a Chyfle Cyfartal yng** Nghytundeb Belfast 1998 (Cytundeb Gwener y Groglith). Mae Llywodraeth y DU wedi nodi yn ei esboniad y bydd yn gweithredu'r ymrwymiad trwy oruchwyliaeth Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon (NIHRC), Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon (ECNI) ac, ar faterion sy'n cwmpasu holl ynys Iwerddon, bydd gan y Cyd-bwyllgor ar gyfer pontio a chymhwyso'r cytundeb drafft oruchwyliaeth hefyd. Bydd Llywodraeth y DU yn rhoi pwerau newydd i'r NIHRC ac ECNI i fonitro, gorfodi, cynghori ac adrodd ar yr ymrwymiad.

6. 3. Beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio os cymeradwyir y Cytundeb Ymadael drafft

Yn ystod y cyfnod pontio, bydd angen i'r DU barhau i ddehongli cyfraith yr UE mewn modd sy'n gyson â'r Siarter Hawliau Sylfaenol. Mae Pennod 3 yn cwmpasu cydraddoldeb. Fodd bynnag, mae dau eithriad mewn perthynas â hyn. Mae Erthygl 127 o'r Cytundeb Ymadael drafft yn nodi na fydd erthyglau 39 a 40 o'r Siarter Hawliau Sylfaenol yn berthnasol i'r DU naill ai yn ystod y cyfnod pontio, neu ar ôl hynny. Mae Erthygl 39 yn ymwneud â'r hawl i bleidleisio ac i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiadau i Senedd Ewrop, ac yn amlwg ni fydd y DU yn ethol Aelodau o'r Senedd ar ôl ymadael. Mae Erthygl 40 yn ymgorffori hawliau dinasyddion yr UE i sefyll a phleidleisio mewn etholiadau trefol (lleol) yn Aelod-wladwriaeth yr UE y maent yn byw ynddi, ar yr un sail â gwladolion y wladwriaeth honno. Bydd y DU yn rhydd i barhau i ganiatáu i wladolion yr UE wneud hynny ar ôl ymadael ond ni fydd yn ofynnol iddynt wneud hynny.

Yn ogystal, bydd pedair Cyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd ar gydraddoldeb yn parhau i fod yn berthnasol i'r DU yn ystod y cyfnod pontio. Mae'r rhain yn amddiffyn rhag gwahaniaethu ar yr un sail â Deddf Cydraddoldeb 2010: tarddiad hiliol neu ethnig, rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, statws priodas/partneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, anabledd, oedran a chrefydd neu gred.

Fel y nodwyd, mae **cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010** yn adlewyrchu ac yn ymgorffori darpariaethau'r cyfarwyddebau hyn (er fel **y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn cydnabod, cafodd cyfreithiau gwrth-wahaniaethu sylweddol ar hil, rhyw ac anabledd eu pasio gan y DU yn annibynnol o gyfraith yr UE; mae'r rhain wedi'u cynnwys ers hynny yn Neddf Cydraddoldeb 2010). Cyfraith y DU yw hon, felly bydd yn parhau ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio oni bai ei bod yn cael ei diddymu neu ei diwygio (ac roedd llawer o'r cynnwys yn bodoli yng nghyfraith y DU cyn ei drosglwyddo i gyfraith yr UE, tra bo agweddau eraill yn deillio o gyfraith yr UE). Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod pontio, byddai angen mesur unrhyw effaith andwyol ar y gyfraith honno yn erbyn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Os yw'r DU yn parhau i fod yn llofnodwr i'r Confensiwn ar ôl y cyfnod pontio, byddai hyn hefyd yn parhau i fod yn wir, er nad yw'n glir a fydd hyn yn digwydd.

6. 4. Beth mae'r datganiad gwleidyddol yn ei ddweud am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

Mae'r datganiad gwleidyddol yn nodi mai rhagofyniad hanfodol i unrhyw berthynas yn y dyfodol yw ei bod wedi'i hategu gan ymrwymiadau hirsefydlog i hawliau sylfaenol unigolion, **gan gynnwys cadw at Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'i system orfodi, h.y. parchu barnau Llys Hawliau Dynol Ewrop**.

Fel y nodwyd yn adran 1.4, **mae'r datganiad gwleidyddol amlinellol yn tynnu sylw at yr angen i greu amodau cyfartal ar gyfer cystadleuaeth agored a theg**. O ran cydraddoldeb a hawliau dynol, bydd y darpariaethau cyflogaeth a chymdeithasol a grybwyllir yn y datganiad gwleidyddol amlinellol o bwysigrwydd arbennig. Mae'r datganiad gwleidyddol amlinellol hefyd yn nodi y bydd trefniadau i greu amodau cyfartal yn adeiladu ar y rhai a nodir yn yr 'ateb wrth gefn' yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon a ddarperir isod.

6. 5. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r 'ateb wrth gefn' yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn dod i rym

Fel y nodir yn adran 1.5, mae Atodiad 4 i'r protocol hefyd yn ymrwymo'r DU i nifer o fesurau rheoliadol ar gyfer sicrhau amodau cyfartal os yw'r 'ateb wrth gefn' yn dod i rym. O ran safonau llafur a chymdeithasol, mae'n ofynnol i'r DU beidio â "chamu'n ôl" o lefelau amddiffyn o dan safonau rhyngwladol a safonau'r UE ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae'n ofynnol i'r DU gynnal system effeithiol o arolygiadau llafur, sicrhau bod achosion gweinyddol a barnwrol ar gael er mwyn caniatàu i gamau effeithiol gael eu cymryd yn erbyn torri'r gyfraith, ac i ddarparu ar gyfer cymryd camau unioni a gosod sancsiynau sy'n effeithiol, yn gymesur ac

sydd ag effaith ataliol. Mae rhai sylwebyddion, megis y **Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus** a **Chyfreithwyr Thompsons,** wedi mynegi pryderon ynglŷn â gallu unigolion i orfodi'r rhwymedigaethau hyn i beidio â chamu'n ôl ar ôl Brexit.

7. Trefniadau cyfansoddiadol

7. 1. Materion a godwyd gan y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael drafft

Yn ei **adroddiad** ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru "archwilio'r cyfleoedd i sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol yng Nghymru ymgysylltu'n effeithiol â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau ar ôl Brexit."

Mae ail ran o waith y Pwyllgor ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol wedi cynnwys ystyried sut mae gwledydd a rhanbarthau nad ydynt yn rhan o'r UE yn ymgysylltu â'r UE.

Yn ogystal â'i waith ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried ei berthynas â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn ystod y cyfnod pontio fel rhan o'i ymchwiliad i **Cyfraith yr UE yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio Brexit?**

Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd wedi dechrau deialog â Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau ar gyfluniad posibl strwythurau yn y dyfodol er mwyn hwyluso cysylltiadau rhyng-sefydliadol.

7. 2. Sut mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn ymateb i'r materion hyn

Mae'r Cytundeb Ymadael drafft yn gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau sefydliadol i reoli, gweithredu a gorfodi'r cytundeb, gan gynnwys dulliau ar gyfer setlo anghydfodau. Mae erthygl 164 yn darparu ar gyfer sefydlu **Cyd-bwyllgor**, a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o'r UE a'r DU a'i fod **yn cael ei gyd-gadeirio gan yr UE a'r DU.** Mae'n nodi y bydd yn cyfarfod ar gais y partïon ond y bydd yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn beth bynnag. Bydd chwe phwyllgor arbenigol hefyd yn cael eu sefydlu i gynorthwyo i weithredu a chymhwyso'r Cytundeb.

Pe bai **anghydfod yn ymwneud â dehongli'r Cytundeb Ymadael**, byddai ymgynghoriad gwleidyddol cychwynnol yn digwydd mewn **Cyd-bwyllgor**. Os na fydd y DU a'r UE yn dod i gytundeb, gall y naill ochr neu'r llall ofyn am sefydlu panel cyflafareddu ar gyfer asesiad rhwymol (er y gall y naill ochr neu'r llall ofyn i'r

panel adolygu ei asesiad). Os yw'r anghydfod yn cynnwys cwestiwn o gyfraith yr UE bydd rhaid ei gyfeirio at Lys Cyfiawnder yr UE am ddyfarniad rhwymol, a gellir cyfeirio cwestiynau priodol eraill at Lys Cyfiawnder yr UE hefyd ar gais y naill ochr neu'r llall. Os na fydd y DU neu'r UE yn cydymffurfio â phenderfyniad y panel, gall y panel ddyfarnu bod cyfandaliad neu daliad cosb i'w dalu i'r ochr arall ac, os bydd diffyg cydymffurfio yn parhau, gall yr ochr sydd wedi cael ei thramgwyddo yn ei herbyn atal cymhwyso rhannau perthnasol o'r Cytundeb Ymadael, neu gytundebau eraill y DU-UE, cyhyd â bod hyn yn gymesur â'r tor cytundeb y cwynwyd amdano'n wreiddiol, ac nad yw'n effeithio ar y telerau ynghylch hawliau dinasyddion yn y Cytundeb.

Byddai'r Cyd-bwyllgor hefyd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid ymestyn y cyfnod pontio ac os felly, p'un a yw hyn am hyd at un ynteu ddwy flynedd. Fel yr amlinellir uchod, dim ond unwaith y gellir ymestyn y cyfnod pontio a rhaid i'r cais gael ei wneud cyn 1 Gorffennaf 2020.

7. 3. Beth fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod pontio os cymeradwyir y Cytundeb Ymadael drafft

Yn ystod y cyfnod pontio, ni fydd y DU mwyach yn rhan o broses gwneud penderfyniadau yr UE. Mae hyn yn golygu **na fydd y DU yn cael ei chynrychioli yn sefydliadau, asiantaethau a chyrff yr UE ar ôl y diwrnod gadael ar 29 Mawrth 2019**. O ganlyniad, bydd cynrychiolaeth Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop a Senedd Ewrop yn dod i ben. Yn yr un modd, ni fydd y DU yn gallu gweithredu fel "rapporteur" ar gyfer awdurdodau Ewropeaidd nac Aelod-wladwriaethau yn ystod y cyfnod pontio.

Fodd bynnag, dywed Erthygl 128 o'r Cytundeb Ymadael drafft y gellir gwahodd cynrychiolwyr neu arbenigwyr o'r DU i fynychu rhai cyfarfodydd o'r UE yn ystod y cyfnod pontio, a chyfarfodydd o endidau yr UE lle mae cynrychiolwyr neu arbenigwyr o Aelod-wladwriaethau yn cymryd rhan, pan fo presenoldeb y DU yn angenrheidiol ac er budd yr UE, neu pan fo trafodaethau'n ymwneud â "phenderfyniadau" unigol (penderfyniadau sy'n rhwymo'n gyfreithiol) a gyfeirir at y DU neu ddinesydd neu gwmni yn y DU (e.e. penderfyniad bod cwmni'r DU wedi torri cyfraith cystadleuaeth yr UE yn ystod y cyfnod pontio). Fodd bynnag, ni fydd gan gynrychiolwyr y DU hawliau pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath.

Mae'r Cytundeb Ymadael drafft hefyd yn nodi yn Erthygl 129 na fydd y DU yn gallu cymryd rhan yng ngwaith unrhyw gyrff a sefydlwyd gan y cytundebau rhyngwladol a wnaed gan yr UE, er y gall yr UE ymgynghori â'r DU.

7. 4. Beth mae'r datganiad gwleidyddol yn ei ddweud am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

Er ei fod yn nodi bod angen i'r cytundebau sy'n ymwneud â'r berthynas yn y dyfodol gael eu negodi'n ffurfiol rhwng y DU a'r UE, mae'r datganiad gwleidyddol yn nodi y bydd y ddwy ochr yn gweithio at lunio **fframwaith cyfansoddiadol cyffredinol sy'n cwmpasu penodau a chytundebau cysylltiedig ar gyfer meysydd cydweithredu penodol.** Mae'n nodi y gallai hyn fod ar ffurf a **Cytundeb Cysylltu** ac y bydd **yn bosibl adolygu'r berthynas yn y dyfodol.**

Er mwyn sicrhau gweithrediad y berthynas yn y dyfodol, bydd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer ei **rheoli, ei goruchwylio, ei gweithredu a'i datblygu dros amser,** yn ogystal ag ar gyfer **datrys anghydfodau a gorfodi**. Yn ogystal, bydd y DU a'r UE yn ceisio sicrhau **'deialog reolaidd'** rhwng y DU a'r UE ar lefelau uwchgynhadledd, gweinidogol, technegol, seneddol a chymdeithas sifil. O ran deialog ar lefel uwchgynhadledd a lefel gweinidogol, dywed y datganiad gwleidyddol drafft y dylai hyn, ymhlith pethau eraill, drafod **cyfleoedd ar gyfer cydweithredu** mewn meysydd cyffredin, gan gynnwys ar **faterion rhanbarthol**. Mae'r DU a'r UE hefyd yn cefnogi **deialog rhwng Senedd Ewrop a Senedd y DU**. Yn ôl y datganiad gwleidyddol drafft, dylai hyn alluogi rhannu barn ac arbenigedd ar faterion sy'n ymwneud â'r berthynas yn y dyfodol.

Fel rhan o'r berthynas y dyfodol, mae'r DU a'r UE wedi cytuno y dylid sefydlu **Cyd-bwyllgor** a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o'r UE a'r DU. Byddai'r Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am:

- rheoli a goruchwylio gweithrediad y berthynas yn y dyfodol;
- hwyluso datrys anghydfodau; a
- gan wneud argymhellion yn ymwneud ag esblygiad y berthynas y dyfodol.

Fel y nodwyd yn y datganiad gwleidyddol, byddai'r trefniadau ar gyfer setlo anghydfodau a gorfodi yn seiliedig ar y rhai a nodir yn y Cytundeb Ymadael drafft. Mae hyn yn golygu y byddai panel cyflafareddu yn cael ei sefydlu mewn achosion lle na ellir datrys anghydfodau gan y Cyd-bwyllgor ac y byddai unrhyw anghydfodau sy'n ymwneud â dehongli cyfraith yr UE yn cael eu cyfeirio at Lys Cyfiawnder yr UE.

7. 5. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r 'ateb wrth gefn' yn y protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn dod i rym

Mae Erthygl 165 o'r Cytundeb Ymadael drafft yn darparu ar gyfer sefydlu **Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon.** Yn ôl Erthygl 16 o'r protocol, byddai'r Pwyllgor hwn yn hwyluso'r gwaith o weithredu a chymhwyso'r ateb wrth gefn os na fydd cytundeb ar y berthynas yn y

dyfodol erbyn 31 Rhagfyr 2020 neu os nad oes estyniad i'r cyfnod pontio. Byddai'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r UE a'r DU.

Mae'r protocol (Erthygl 17) hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu gweithgor ymgynghorol ar y cyd i wasanaethu fel fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac ymgynghori ar y cyd. Byddai'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r DU a'r UE ond ni fyddai ganddo bŵer i wneud unrhyw benderfyniadau rhwymol.

Byddai'r dull o ddatrys anghydfodau y cytunir arno fel rhan o'r Cytundeb Ymadael yn parhau i fod yn berthnasol pe bai'r 'ateb wrth gefn' yn dod i rym.

Atodiad B: Papur ar y goblygiadau i Gymru sy'n deillio o'r Cytundeb Ymadael gan Dr Tobias Lock (Saesneg yn unig)

Assessment and summary of the implications for Wales of the draft Withdrawal Agreement

Briefing paper prepared for the External Affairs and Additional Legislation Committee of the National Assembly for Wales

Dr Tobias Lock, Edinburgh Law School

23 November 2018

Contents

1. Introduction 3
2. Timeline 4
3. Key features of the Withdrawal Agreement 5
3.1 Separation and financial provisions 5
3.2 Citizens' rights 6
3.3 Legal effects of the Withdrawal Agreement and role of the ECJ 7
3.3.1 Direct effect and primacy of the WA and EU law 7
3.3.2 The role of the Court of Justice in the UK legal order 8
3.4 Governance of the Withdrawal Agreement and dispute settlement 9
3.5 Ratification process 9
4. Transition period 10
4.1 Effects of transition 10
4.2 Extension of the transition period 11
4.3 Domestic implementation 12
5. Protocol on Ireland/Northern Ireland: the backstop 13
5.1 Background 13
5.2 Overview of the backstop in the Protocol on Ireland/Northern Ireland 14
5.3 Application of the protocol and exit 15
5.4 Single customs territory 15
5.5 Level playing field provisions 16
5.6 Trade between Great Britain and Northern Ireland 18
5.7 Domestic implementation 18
6. Future relationship 19

1. Introduction

This paper provides an initial impartial assessment and summary of the implications for Wales of the draft Article 50 Withdrawal Agreement (as published on 14 November 2018), primarily in legal terms. Its purpose is to inform the EAAL Committee's response to the draft Withdrawal Agreement and to inform any Assembly debate on the Withdrawal Agreement.

The paper provides an overview over the next key steps in the Brexit process and the implications of the entry into force of the draft Withdrawal Agreement in the UK and in particular in Wales. A focus in that regard is on the domestic implementation and how this might affect the devolution settlement.

At the outset, it is imperative to recall that the Withdrawal Agreement primarily deals with the terms of the UK's withdrawal from the EU. It is not intended to determine the future relationship between the UK and the EU. That relationship is subject to further negotiations, which will not start until the UK has formally left.

The main features of the Withdrawal Agreement to note relate to the transition period – during which the UK will be subject to EU law like an EU Member State – and the Protocol on Ireland/Northern Ireland, which contains the so-called backstop. That backstop would – if it entered into force – see the EU and the UK belong to a single customs territory and it would see the UK commit to compliance with a number of EU rules to guarantee a 'level playing field'. As part of the UK's customs territory, Northern Ireland would be in the single customs territory, but it would be subject to greater regulatory alignment with EU rules than the rest of the UK.

The exact contours of the future relationship are still largely unclear, however; the draft political declaration only sketches them out. It seems clear that both sides want to achieve an ambitious relationship on trade and on security, but that they do not wish for the UK to remain part of the EU single market. This means that in trade terms, the future relationship is likely to look similar to that with Canada or Ukraine, rather than to that with Norway. The political declaration also envisages a security partnership covering both internal security – judicial cooperation in particular – and external security.

This report is based on the material published on 22 November 2018. Any changes to the Withdrawal Agreement or the political declaration that occurred after this date could not be considered.

Edinburgh, 23 November 2018

2. Timeline

The following timeline sets out the next steps in the Brexit process. It is premised on the assumption that the period for negotiating the UK's withdrawal from the EU is not extended and will therefore end on 29 March 2019.[1] It further assumes that the Withdrawal Agreement (WA) is ratified and that it enters into force as envisaged on 29 March 2019, 11pm UK time.

Ratification process - before 29 March 2019 -	**EU-side** – Qualified majority vote in the Council. – Approval by the EU Parliament. **UK-side** – House of Commons resolution approving WA and political declaration on the framework for a future relationship. – House of Lords to 'take note'. – EU (Withdrawal Agreement) Bill to be passed. – Compliance with procedure in Constitutional Reform and Governance Act 2010.[2]
Transition period - from 11pm on 29 March 2019 until 31 December 2020 (unless extended) -	**Effects** – A standstill transition period: this means that – with very few exceptions – EU law continues to apply in the UK as before, but the UK will no longer be represented in EU institutions or take part in EU decision-making processes. – Most substantive provisions of the WA (e.g. on citizens' rights, intellectual property etc) remain on hold until the end of the transition period. **Negotiations on a future relationship take place** **Future relationship treaty to be ratified** UK-side: – according to Constitutional Reform and Governance Act 2010. – probably: implementing legislation. EU-side: – probably unanimity in the Council and approval by the EU Parliament. – probably: ratification by 27 Member States according to their own constitutional requirements.

[1] Midnight Brussels time; 11pm UK time; an extension would be possible according to Article 50 (3) TEU if both the UK and the EU Council (by unanimity) agree.

[2] This is mentioned by the UK Government in its White Paper 'Legislating for the Withdrawal Agreement between the United Kingdom and the European Union', Cm 9674, paras 15-153, and will result in a period of 21 sitting days during which either House can pass a resolution that the treaty should not be ratified (section 20 of the Constitutional Reform and Governance Act 2010).

Future relationship and/or backstop - (probably) from 1 January 2021 -	**Substantive provisions of the WA become fully operational.** **Future relationship treaty** – If it supersedes the backstop, EU-UK relations governed by it and WA. – If it does not entirely supersede backstop, backstop will (partly) operate. **Backstop** (may not be needed) – EU and UK would form one single customs territory unless and until a subsequent agreement supersedes it *or* if Joint Committee decides that the backstop is no longer necessary. – Legislation needed at UK-level (and possibly in Wales) to give effect to the backstop internally. – Possibly continued negotiations between EU and UK to come to an agreement that replaces backstop.

3. Key features of the Withdrawal Agreement

The WA is divided into the main agreement, three protocols (on Ireland/Northern Ireland, including the UK-wide 'backstop'; UK Sovereign Base Areas in Cyprus; and Gibraltar), as well as nine Annexes. The main agreement is itself subdivided into six parts: common provisions; citizens' rights; separation provisions; transition; financial provisions; and institutional and final provisions.

3.1 Separation and financial provisions

The separation provisions and – to a large extent – the financial provisions deal with the legacy of UK membership. Their main concern is with ongoing matters (goods on the market, ongoing administrative or judicial procedures, etc) at the time the UK leaves the EU. The financial provisions deal with the UK's liabilities – both the UK's financial contribution during the transition period and outstanding commitments of the UK, in particular pensions and other liabilities.

From a Welsh perspective a provision to note in this regard concerns the continued protection of geographical indications, designations of origin, and traditional specialties within the UK and the EU. As far as these were protected on 29 March 2019 they will continue to be protected, unless they are superseded by the future relationship agreement.[3] This means that products such as 'Welsh lamb' or 'Welsh Caerphilly' continue

[3] See Article 54 (2) WA.

to enjoy protection in the EU;[4] and vice-versa products such as 'Parma ham' continue to be protected in the UK.

3.2 Citizens' rights

The preservation of the rights of EU citizens living in the UK and of UK citizens living in the EU was a priority in the negotiations for both the EU and the UK. There had been an early consensus on most of the provisions now found in the WA,[5] the main features of which are briefly outlined in what follows.[6]

The citizens' rights part applies to all EU citizens who had exercised their right to reside by the end of the transition period and who continue to reside in the UK thereafter.[7] Broadly speaking, the WA guarantees their rights under the EU Citizenship Directive 2004/38 in perpetuity.

After five years of continued residence, EU citizens as well as their family members acquire the right to permanent residence in the UK. They will lose this right only if they are absent from the UK for a continuous period of more than five years.[8]

EU citizens settling in the UK in exercise of Treaty rights during the transition period can still qualify for the full panoply of rights contained in the WA. Once they have completed five years of residence – even if parts of that period are after Brexit – they acquire permanent residence. Also covered are family members (mainly spouses and children).[9] The rights will also apply to citizens of Norway, Iceland, Liechtenstein, and Switzerland provided that these countries conclude corresponding agreements with the UK and the EU.[10]

By contrast to the situation before Brexit, EU citizens will be required to register under the proposed EU Settlement Scheme.[11]

The rights guaranteed in the citizenship part of the WA are enjoyed for the entirety of the citizens' lifetime.[12] Given that some of the persons entitled under this part of the WA are

[4] To the author's best knowledge, the following Welsh geographic indications are currently protected: Welsh Caerphilly; Welsh cider; Welsh perry; Welsh pork; Welsh beef; Welsh lamb; Welsh wine; Welsh laverbread; Anglesey Salt; Carmarthen Ham; Pembrokeshire earlies; Conwy Mussels.
[5] See the draft withdrawal agreement published in March 2018: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691366/20180319_DRAFT_WITHDRAWAL_AGREEMENT.pdf.
[6] As the particular focus of this briefing is on Wales and the people living in Wales, reference is made to EU citizens; it should be reiterated that the same rights are enjoyed by UK citizens currently living in the EU-27; the only remaining open question for UK citizens in the EU-27 is whether these will enjoy a right of onward movement, i.e. whether a UK citizen living in of EU-27 state may after transition move to another EU-27 state. This question will only be answered by the treaty on the future relationship.
[7] Article 10 WA; also covered are frontier workers, i.e. persons commuting to and from the UK for work.
[8] Article 15 WA.
[9] See Article 2 Citizenship Directive 2004/38/EC.
[10] Article 33 WA.
[11] https://www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-statement-of-intent.
[12] Article 39 WA.

not yet born, this means that the WA will have effects in the law of the UK for many decades to come.

The substantive content of EU citizens' rights is almost identical to their rights enjoyed currently under EU law. This includes first and foremost the overarching right to non-discrimination on the basis of nationality. This means for instance that tuition fees at Welsh universities for EU nationals living in Wales qualifying under the WA must not be higher than for Welsh students.[13]

It also includes the rights of workers as guaranteed by the EU Treaties; the rights of self-employed persons; mutual recognition of professional qualifications (e.g. medical qualifications); and a continued application of EU rules on the coordination of social security systems.

In order to monitor the correct implementation of the citizens' rights part of the WA, the UK will create a new independent authority. This authority will have powers equivalent to those of the European Commission, which will monitor the correct implementation of the WA in the EU. This will include powers to bring an action before a UK court or tribunal where the Home Office (or other UK body) fails to comply with the citizens' rights part of the WA.

3.3 Legal effects of the Withdrawal Agreement and role of the ECJ

3.3.1 Direct effect and primacy of the WA and EU law

The WA defines its legal effects in the UK legal order in s. 4 WA. It says there that the provisions of the WA 'shall produce in respect of an in the United Kingdom the same legal effects as those which they produce within the Union and its Member States'.

This means that the provisions of the WA – so far as they are clear, precise and unconditional[14] – must be given direct effect in the UK. This means that even if the UK has failed to fully implement certain provisions in the WA – e.g. because the implementing legislation is deficient – individuals can invoke the WA directly before UK courts. In practice this is most likely to be relevant to citizens' rights and parts of the Protocol on Ireland/Northern Ireland.

In addition, the WA (and the provisions of EU law that it makes applicable post-Brexit) will benefit from the doctrine of primacy (or supremacy) of EU law. This means that if there is a conflict between domestic law in the UK (e.g. an Act of the Westminster Parliament) and an EU regulation which the WA says is applicable, EU law prevails. Just like direct effect, primacy is an established concept of EU law which will continue to have effect in the UK after Brexit as far as the WA is concerned.

Implementing legislation will need to reflect these effects. Hence, the EU (Withdrawal Agreement) Bill will need to contain a provision providing for these effects, which could be

[13] Article 12 WA.

[14] These are the conditions for direct effect in EU law, see e.g. Case 41/74 *van Duyn* ECLI:EU:C:1974:133.

modelled on s. 2 (1) of the European Communities Act 1972. That provision is the current domestic legal basis for EU law to become operational in the UK.[15]

From a Welsh perspective, the question arises whether the primacy of EU law will continue to be given effect through the Government of Wales Act. At present, all devolution statutes give robust effect to the primacy of EU law. In the case of Wales, s. 94 (6) (c) of the Government of Wales Act 2006 decrees that 'a provision […] is outside the Assembly's legislative competence if […] it is incompatible [EU] law'. In a similar vein, s. 80 (8) of the same Act restricts the powers of Welsh Ministers to act contrary to EU law.

It will be the legislative choice of the Westminster Government and Parliament whether to amend the Government of Wales Act in accordance with the restrictions placed on the Assembly and on Welsh Ministers by the WA. If such an amendment to the Government of Wales Act is proposed, it would in all likelihood trigger a legislative consent motion.

3.3.2 The role of the Court of Justice in the UK legal order

The European Court of Justice (ECJ) will continue to play a role in the law of the UK after Brexit.

First, its case law up until the end of the transition period will remain binding as far as the interpretation of EU law referred to by the WA is concerned. By contrast, the UK will only need to have 'due regard' to its post-transition case law.[16] For instance, in a case brought by an EU citizen living in the UK before the end of the transition period, where she wishes for her spouse to be allowed to live with her, the ECJ's case law on the definition of 'spouse' would be binding on a UK court before which this case would be heard.[17]

Apart from the continued jurisdiction of the ECJ during transition and a more limited jurisdiction should the backstop become operational (see below), the ECJ will have jurisdiction over cases pending before it when the transition period ends (Article 86 WA). Furthermore, the European Commission will remain competent to bring new enforcement actions against the UK for four years after the end of transition for violations of EU law that occurred before then (Article 87 WA). Additionally, there will be some residual jurisdiction concerning the financial settlement (Article 160 WA).

As far as the citizens' rights part of the WA is concerned, UK courts will continue to be in a position to refer cases to the ECJ over the interpretation of that part of the agreement for eight years following the end of transition (Article 158 WA). By contrast to the situation now and during transition, they will not be obliged to do so.

---

[15] S. 2 (1) European Communities Act 1972 reads: 'All such rights, powers, liabilities, obligations and restrictions from time to time created or arising by or under the Treaties, and all such remedies and procedures from time to time provided for by or under the Treaties, as in accordance with the Treaties are without further enactment to be given legal effect or used in the United Kingdom shall be recognised and available in law, and be enforced, allowed and followed accordingly; and the expression "enforceable EU right" and similar expressions shall be read as referring to one to which this subsection applies'.

[16] Sections 4 (4) and (5) WA.

[17] See e.g. Case C-673/16 *Coman* ECLI:EU:C:2018:385, according to which a same-sex spouse is covered by this.

3.4 Governance of the Withdrawal Agreement and dispute settlement

The WA accords a central governance role to the Joint Committee. The Joint Committee is comprised of representatives from the EU and the UK and decides unanimously. This means in practice that the EU and the UK can each veto Joint Committee decisions.[18]

